



RhannuCeirCaerdydd.com

Cylchlythyr

Cyngor Caerdydd : Ffôn (029) 2087 3722

Gwanwyn 2009

Rhifyn 10

Croeso i gylchlythyr y Gwanwyn RhannuCeirCaerdydd.com

Mae 1000 o aelodau gan
RhannuCeirCaerdydd!



Yn ddiweddar dathlodd RhannuCeirCaerdydd bod ei 1000fed aelod wedi arwyddo! Mae cynllun rhannu ceir Cyngor Caerdydd wedi tyfu'n raddol ers ei lansio'n gyntaf fel prosiect peilot ar gyfer Neuadd y Sir yn 2005. Mae cyrraedd y garreg filltir hon yn adlewyrchu poblogrwydd parhaus RhannuCeirCaerdydd ac o gefnogaeth y sefydliadau sy'n aelodau hefyd. Da iawn!

Aelod newydd
RhannuCeirCaerdydd!



Mae RhannuCeirCaerdydd yn falch iawn o gyflwyno'i aelod sefydliad diweddaraf, CBAC. Mae CBAC, yr wythfed sefydliad i ymuno â RhannuCeirCaerdydd, wedi ymroi i annog staff i deithio mewn ffordd ecogyfeillgar, ac maent yn gweld bod eu haelodaeth yn ffordd allweddol o gyrraedd hyn. Bydd staff sydd wedi eu lleoli yn y tri safle sydd gan CBAC (Western Avenue, Heol y Gadeirlan a Threfforest) yn gallu chwilio am bartneriaid rhannu teithiau sy'n defnyddio'r cynllun. Mae CBAC yn ddiweddar wedi symud i mewn i Gam 1 ei swyddfeydd newydd mawreddog. Cyflwynwyd y cynllun rhannu ceir i fynd i'r afael â cholli manau parcio yn sgîl datblygiadau sy'n digwydd ar y safle ac i gefnogi ei fenter Cynllun

Teithio. Bydd y cynllun yn cael ei hyrwyddo drwy slipiau cyflog a phosteri. Mae loceri a chawodydd yn yr adeiladau newydd, fel bod staff sy'n defnyddio dulliau actif yn gallu gwneud y defnydd mwyaf ohonynt. Cyflwynir standiau beiciau â gorchudd yn gynnar wrth adeiladu Cam 2 sydd i fod i ddechrau o fewn y mis nesaf. Bydd CBAC yn defnyddio cynllun aberthu cyflog gyda Cyclesolutions. Cynhelir sioe deithiol gan Cyclesolutions ar 1 Mehefin 2009 er mwyn dynodi dechrau'r cynllun.

Newyddion UWIC RhannuCeirUWIC



Mae cynllun rhannu ceir UWIC yn cael ei ail-lansio ym Medi 2009 i dargedu myfyrwyr newydd sy'n ymuno a chynnal proffil uchel y cynllun. Yn benodol, bydd myfyrwyr o'r ardal leol nad ydynt yn byw ar y campws yn cael eu tywys tuag at RhannuCeirCaerdydd a dod o hyd i bobl i rannu teithiau i'r safleoedd. Bydd trwyddedau sy'n atal twyll yn cael eu cyhoeddi i helpu i fonitro'r cynllun.

Seiclo i UWIC



Bydd y ffenest brynu ddiweddaraf ar gyfer Cynllun Aberthu Cyflog yn rhedeg am 4 wythnos gan wario'r uchafswm o £1,000. Mae'r cynllun wedi ei ehangu gel bod staff ar gytundebau tymor penodol bellach yn gallu manteisio ar brynu beic yn rhatach. Cynhelir wythnos frecwast am ddim 'Seiclo i UWIC' ym mis Mehefin i gefnogi Wythnos

Genedlaethol y Beic. Bydd digwyddiadau eraill fel taith feiciau o Gampws Llandaf i Gastell Coch hefyd yn cael eu cynnal yn ystod Wythnos y Beic. Mae Cynllun Peilot yn cael ei gyflwyno ar gampws Howard Gardens, a fydd yn cynnwys cronfa feiciau at ddefnydd y staff, sesiynau Dr Bike a hyfforddiant beicio. Os bydd yn llwyddiannus, caiff y cynllun o bosibl ei gyflwyno'n raddol i bob campws. Mae diogelwch mewn cytiau beiciau wedi'i atgyfnerthu ar bob campws drwy gyflwyno mynediad drwy gerdyn sweipio. Mae grŵp BUG yn parhau i dyfu gan ymfalchio yn ei 193 aelod sy'n cyfateb i 14% o holl staff UWIC.

UWIC Rider

Mae gwerthiant UWIC Rider wedi torri pob record flaenorol gyda thros 2000 tocyn bws wedi eu prynu. Mae hyd y tocyn wedi ei wneud yn hirach o 5 wythnos, gan ei wneud yn ddilys am 10 mis o'r flwyddyn ar unrhyw Fws Caerdydd. Mae Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer gweithwyr UWIC sy'n prynu Staff Riders yn cael ei gyflwyno ym Medi 2009.

Arolwg Teithio UWIC

Ym mis Ebrill, dosbarthwyd Arolwg Teithio Staff UWIC a gynhelir bob dwy flynedd, gydag Arolwg Teithio Myfyrwyr yn dilyn ym Mai. Mae'r Arolygon Teithio yn darparu gwybodaeth allweddol a fydd cael ei defnyddio i fonitro a datblygu Cynllun Teithio UWIC.

Cerdded i UWIC

Mae digwyddiad cyntaf Cerdded i UWIC yn cael ei gynnal ym mis Mehefin, gyda phobl sy'n cymryd rhan yn cael brecwast am ddim bob dydd y maent yn cerdded yn ystod yr wythnos. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan hefyd yn cael pedometr am ddim. Bydd UWIC yn cael mynediad i 30 o lefydd i redeg yn nigwyddiad ras 10k Ymchwil Arennau yr Hydref. Anogir staff i redeg i'r gwaith fel rhan o'u hyfforddiant tuag at y digwyddiad hwn.

Newyddion Canolfan Mileniwm Cymru

Bydd Canolfan Mileniwm Cymru'n cynnal Diwrnod Ymwybyddiaeth Seiclo ar 25 Mehefin. Dyma'r ail flwyddyn mae Grŵp Defnyddwyr Beiciau y Ganolfan wedi trefnu digwyddiad o'r fath. Roedd digwyddiad y llynedd, mewn cydweithrediad â Hyfforddiant Seiclo Cymru, yn llwyddiant mawr. Eleni bydd y grŵp yn trefnu

Sesiwn Dr Bike, bore coffi a bacwn i'r sawl sy'n seiclo i'r gwaith, cyngor ar seiclo (e.e. llwybrau a seiclo diogel) a thaith i'r grŵp gyda'r hwyr. Y gobaith yw drwy drefnu diwrnod, nid yn unig i staff ein Canolfan yn unig ond i staff ein cwmnïau preswyl hefyd, y bydd yn codi proffil seiclo a'r iechyd a'r budd ariannol a ddaw yn ei sgîl.

Newyddion Hyder

Mae arolwg o lefydd rhannu car sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn digwydd er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n rhannu ceir a pharhau i wella sefyllfa parcio ar y safle. Bydd Hyder hefyd yn dathlu National Liftshare Day ar 9 Mehefin ac Wythnos y Beic o 13 tan 21 Mehefin.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae aelodaeth RhannuCeirCaerdydd ar gynnydd, gyda'r cynllun yn cael ei hyrwyddo i staff drwy ddigwyddiadau a chyfathrebu rheolaidd. Mae Cynllun Seiclo i'r Gwaith y Cynulliad hefyd newydd gael ei lansio, gydag wythnos o ddigwyddiadau sy'n cynnwys arddangosiad o feiciau yn ffreutur y staff.

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Mae gan gynllun Canolfan Canser Felindre saith grŵp rhannu car erbyn hyn, gyda 82 aelod i gyd a rhagwelir bydd mwy pan gyflwynir trwyddedau parcio newydd.

Tra bod prif faes parcio'r staff yn Felindre'n cael ei uwchraddio, bydd gofyn i'r rhai sy'n rhannu ceir i barcio ym maes parcio dros dro Ysbyty'r Eglwys Newydd ynghyd ag aelodau eraill o'r staff. Fodd bynnag mae'n debygol y bydd llefydd wedi'u pennu ar gyfer rhanwyr ceir yn cael eu cyflwyno pan fydd y maes parcio wedi ei gwblhau.

Newyddion Cyngor Caerdydd

Mae cynllun benthyc Cyfrwr Camau wedi'i gyflwyno, ac mae'n boblogaidd iawn gyda staff ar draws y Cyngor, mewn nifer o wahanol safleoedd gan staff i fenthyc cyfrwr camau am chwe wythnos er mwyn ceisio cynyddu eu lefelau cerdded. Roedd yr achlysur lansio yn cyd-fynd â'r Wythnos Cerdded i'r Gwaith gyntaf a gynhaliwyd rhwng 27 Ebrill - 1 Mai.



Er mwyn cefnogi cynllun cronfa feiciau yn Neuadd y Ddinas a Neuadd y Sir, mae hyfforddiant sgiliau seiclo un-i-un a hyfforddiant cynnal a chadw beic ar gael i staff. Mae lloches feiciau newydd Canolfan y Ddinas ar agor bellach i feicwyr ei defnyddio. Mae cynllun cronfa feiciau yn Neuadd y Ddinas hefyd wedi ei lansio gan gynnig beiciau i weithwyr y Cyngor sy'n gweithio yn Neuadd y Ddinas ar gyfer busnes a phleser. Cynhaliwyd ffenest brynu gyntaf cynllun Seiclo i'r Gwaith y Cyngor ym mis Chwefror gyda thros 150 ar draws Cyngor Caerdydd yn manteisio ar y cyfle i brynu beiciau ac offer seiclo yn rhatach.



Hyfforddiant Seiclo yn Neuadd y Sir

Dinas Teithio Cynaliadwy Enwyd Caerdydd fel Dinas Teithio Cynaliadwy gyntaf Cymru. Mae nawdd o'r Cynulliad a Chyngor Caerdydd i'w ddefnyddio i gefnogi trafniadaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo drwy ddatblygiadau fel pont Pont-y-Werin sy'n cysylltu Penarth â'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol a chynllun beic am ddim i'r ddinas fel a geir ym Mharis. Penodwyd gweithredydd a'r gobaiith yw y caiff ei lansio yn yr Hydref.

Lansio Strategaeth Gweithgaredd Corfforol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Daeth nifer o weithwyr Cyngor Caerdydd sydd wedi manteisio ar raglen Deithio Actif y Cyngor i helpu i lansio ymgynghoriad Cynllun Gweithredu Gweithgarwch Corfforol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n ceisio annog pobl ar draws Gymru i fod yn fwy actif. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlygu'r angen i gynnwys gweithgarwch corfforol yn ein bywyd bob dydd, gyda cherdded a seiclo'n ffyrdd delfrydol o gyflawni hynny.



Y Gweinidog Treftadaeth Alun Ffred Jones a Tony Jewell Prif Swyddog Meddygol yn Neuadd y Sir i lansio Cynllun Gweithredu Gweithgarwch Corfforol y Cynulliad

Bike week

Poster Newydd

Ewch i RhannuCeirCaerdydd i ddod o hyd i rywun i rannu eich 10,000 o gamau!



Gwybodaeth Ddefnyddiol:

Cynllunio ar gyfer Teithio:

Traveline Cymru: www.cymraeg.traveline-cymru.info (ffôn 0871 200 22 33)

Cerdded a seiclo:

Sustrans: www.sustrans.org.uk

Seiclo Caerdydd: www.cyclecardiff.org.uk

Y Cerddwyr: www.ramblers.org.uk/wales/

Cerdded i Gadw'n Iach Caerdydd: www.cardiffwalkingforhealth.org

Awyr Agored Caerdydd: www.cardiff.gov.uk/outdoorcardiff

Cynlluniau Teithio:

www.caerdydd.gov.uk/cynlluniateithio neu www.keepingcardiffmoving.co.uk

e-bost: travelplans@caerdydd.gov.uk